COFNODION CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2000
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Yn bresennol:** Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol

John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Pwyllgorau (eitem 6)
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 8)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Roedd Kirsty Williams wedi anfon ei hymddiheuriadau. Roedd Peter Black yno yn ei lle yn unol â Rheol Sefydlog 13.3.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC296-00 (cyfarfod 31/10/00)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd sylwadau pellach, fe'u cyfieithir yn barod ar gyfer eu cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC305-00 (cyfarfod 7/11/00)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf drafft. Gan na chafwyd sylwadau, byddant yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf yn eu ffurf derfynol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi (BC305-00)

3.1 **Paragraff 3.1** – Dywedodd y Trefnydd iddo gael ar ddeall bod arweinwyr y pleidiau wedi cytuno y dylid cadw at y drefn bresennol ar gyfer gofyn cwestiynau llafar i'r Prif Weinidog. Gofynnodd Jocelyn Davies a ddylai'r system gael ei hadolygu ymhen amser. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y gallai'r Trefnydd godi'r mater yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Busnes yn y

dyfodol.  Disgwylir y bydd adolygiad y Cynulliad o'i weithdrefnau hefyd yn ystyried y mater.

3.2 **Paragraff 3.2** – Dywedodd Marion Stapleton ei bod wedi gwneud y newidiadau a awgrymwyd i'r papur ar rôl y Dirprwy Weinidogion. Bydd hi'n gobeithio ei anfon at yr holl Aelodau yn ddiweddarach yn yr wythnos ar ôl i'r Dirprwy Weinidogion eu hunain roi sêl eu bendith iddo. **Gweithredu: Marion Stapleton**

3.3 **Paragraff 3.6** – Roedd Marion Stapleton yn gobeithio cwrdd â staff yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yr wythnos hon i drafod geiriad cynigion i nodi adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau sy'n tynnu sylw arbennig at orchmynion penodol. **Gweithredu: Marion Stapleton i baratoi drafft i'w ystyried gan y Pwyllgor Busnes**

3.4 **Paragraff 4.1** – Roedd Rheolwyr Busnes wedi ystyried cynnig Jocelyn Davies i ymestyn y ddealltwriaeth nad yw grwpiau'n cyflwyno gwelliannau i'w cynigion eu hunain ac na fyddai grwp y Democratiaid Rhyddfrydol felly yn cyflwyno gwelliannau i gynigion y Llywodraeth.  Cynigiodd hefyd drefn mai Rheolwyr Busnes y pleidiau fyddai fel arfer yn gyfrifol am gyflwyno gwelliannau i gynigion ond gan ei gwneud yn amlwg pa rai a gynigid gan Aelodau'r meinciau cefn.  Pwysleisiodd Jocelyn Davies nad bwriad Plaid Cymru mewn unrhyw ffordd oedd cwtogi hawliau Aelodau'r meinciau cefn.  Dywedodd Peter Black bod ei grwp yntau hefyd am ddiogelu hawliau Aelodau'r meinciau cefn.  Nododd na fyddai'r drefn a gynigid yn gweithio ar hyn o bryd, gan fod Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol ei hun yn Aelod mainc gefn.  Er hynny, cadarnhaodd nad oedd ei grwp fel arfer yn cyflwyno gwelliannau i gynigion y Llywodraeth.  Penderfynwyd symud ymlaen ar y ddealltwriaeth honno tra'n cydnabod yr hawliau a sicrheir yn y Rheolau Sefydlog.

3.5 **Paragraff 6.1** – Hysbyswyd y Pwyllgor gan Marie Knox bod angen i Reolwyr Busnes anfon eu henwebiadau ar gyfer y Paneli Penodiadau Cyhoeddus ar fyrder.  Ceir y manylion llawn mewn papur y bydd yn ei ddosbarthu yn syth ar ôl cyfarfod.  **Gweithredu: Marie Knox i ddosbarthu'r papur; Rheolwyr Busnes i anfon enwebiadau**

3.6 **Paragraff 6.2** – Dywedodd Marie Knox y bydd y Pwyllgor Deddfau bellach yn dechrau ei gyfarfodydd am 9.30am ar foreau Mawrth.  Roedd Kirsty Williams wedi gofyn iddi ystyried eu hailamseru rhag i Aelodau orfod cwtogi ar eu hamser yn eu hetholaethau ar ddyddiau Llun er mwyn bod yn ôl yng Nghaerdydd ben bore dydd Mawrth.  Dywedodd Marie Knox iddi ddrafftio amserlen newydd ar gyfer yr holl gyfarfodydd.  Rhag gwrthdaro â phwyllgorau eraill, yr unig slot arall ar gyfer y Pwyllgor Deddfau oedd prynhawniau Iau.  Fodd bynnag, gallai hynny effeithio ar y drefn ar gyfer gosod adroddiadau'r Pwyllgor mewn pryd ar gyfer Cyfarfodydd Llawn.  Cytunwyd i ofyn i'r Pwyllgor Deddfau ystyried y mater.  **Gweithredu: Marie Knox i holi'r Pwyllgor Deddfau am amseriad ei gyfarfodydd ac i adrodd yn ôl.**

## 4.  Materion a gyfeiriwyd i'r cyfarfod llawn

4.1 Dim.

## 5.  Cyngor i’r Cynulliad ar ei weithdrefnau

5.1 Roedd y Pwyllgor wedi bod yn ystyried papur BC272-00 (diwygiedig) ar y cynigion ar gyfer toriadau 2001.  Nododd y Dirprwy Lywydd bod y papur yn argymell y dylai Cyfarfodydd Llawn barhau dros gyfnod cynadleddau cenedlaethol y pleidiau yn 2001 ond gyda rhaglen ysgafnach a dim cyfarfodydd pwyllgor.  Gofynnodd a fyddai hynny’n realistig.  Dywedodd Peter Black y byddai’n anodd clustnodi materion digynnen i’r cyfarfod llawn eu trafod a byddai’r holl Aelodau am fod yn bresennol ar gyfer datganiadau a sesiynau holi.  Gan nad oes gan y Cynulliad bwerau deddfu sylfaenol, roedd yn teimlo ei bod yn bwysig bod ei grwp yn bresennol yn y cynadleddau i gyflwyno persbectif Cymreig.  Cytunodd William Graham â’r pwyntiau hyn.  Roedd Jocelyn Davies yn ofidus na ddylid gohirio toriad yr haf tan ddechrau mis Awst er mwyn i’r toriad cyfan gynnwys tymor cynadleddau cenedlaethol y pleidiau.  Dywedodd y Dirprwy Lywydd mai’r hyn ddylai benderfynu sawl wythnos y dylai’r Cynulliad gwrdd yw swm y gwaith y disgwylid iddo ei wneud.  Prin oedd gwerth ystyried sefyllfaoedd sefydliadau datganoledig eraill gan fod ganddynt hwy bwerau gwahanol.  Cytunwyd bod y Rheolwyr Busnes yn ystyried y papur eto ac yn adrodd yn ôl yr wythnos ddilynol gyda golwg ar wneud penderfyniad terfynol. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes**

## 6.  Pwyllgorau

6.1 Bu’r Pwyllgor yn ystyried papur BC307-00 ar aelodaeth a phresenoldeb Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.  Cytunodd y Rheolwyr Busnes â’r argymhelliad y dylai grwpiau’r pleidiau sicrhau presenoldeb llawn, gan ddefnyddio eilyddion pe bai raid. **Gweithredu: Marion Stapleton i hysbysu’r Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol**

## 7.  Gwaith yn y dyfodol

### Gwaith yr wythnos hon

7.1 Dywedodd y Trefnydd y byddai Sue Essex yn gwneud datganiad yn sesiwn prynhawn y Cyfarfod Llawn ar y tywydd drwg diweddar.

7.2 Bu’r Pwyllgor yn ystyried y datganiad busnes drafft (BC308-00).

### Y gwaith arfaethedig ar gyfer yr wythnosau’n cychwyn 20 & 27 Tachwedd a 4 Rhagfyr 2000

7.3 Cyngor y Pwyllgor i’r Trefnydd ar ei ddatganiad ar drefniant gwaith y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau’n cychwyn 20 a 27 Tachwedd a 4 Rhagfyr oedd y dylai fynd yn ei flaen yn unol â’r datganiad busnes drafft.

7.4 Gofynnodd Jocelyn Davies a oedd cynnig i drafod y Cytundeb Partneriaeth.  Dywedodd y Trefnydd bod hynny yn yr arfaeth ac y byddai'n hysbysu'r Rheolwyr Busnes yn y man. **Gweithredu: Y Trefnydd**

7.5 Roedd Peter Black yn poeni am yr amser ar gyfer trafodaethau yn y datganiad busnes drafft.  Dywedodd Marion Stapleton mai amcanol oedd yr amseriadau a phan fyddai'r llwyth gwaith yn ysgafn, byddai'r Cabinet yn disgwyl ymestyn yr amser trafod.

**8.  Is-ddeddfwriaeth**

**Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethi Annomestig (Cymru) (Diwygio) Cymru 2000**

8.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC309-00 a gynhwysai gyngor gan Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid a Chymunedau ar y modd y dylid ymdrin â'r Gorchymyn hwn.  Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc.  Byddai'n gwneud ei benderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod iddo allu ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn.  **Penderfyniad gan y Dirprwy Lywydd – y drefn garlam.**

**Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Offer Telathrebu) (Cymru) 2000**

8.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC311-00 a gynhwysai gyngor gan Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid a Chymunedau ar y modd y dylid ymdrin â'r Gorchymyn hwn.  Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc.  Byddai'n gwneud ei benderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod iddo allu ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn.  **Penderfyniad gan y Dirprwy Lywydd – y drefn garlam.**

**Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol (Cymru) 2000**

8.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC314-00 a gynhwysai gyngor gan Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y modd y dylid ymdrin â'r Gorchymyn hwn.  Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r pwyllgor pwnc.  Byddai'n gwneud ei benderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod iddo allu ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn.
**Penderfyniad gan y Dirprwy Lywydd – y drefn garlam.**

8.4 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC312-00 am yr ohebiaeth rhwng y Pwyllgor Deddfau a'r Pwyllgor Busnes ynghylch y ddeddfwriaeth a wnaed o dan y drefn Weithredol y cafwyd wedi hynny ei bod yn ddiffygiol.  Roedd y Rheolwyr Busnes yn fodlon â'r argymhelliad a bydd y Dirprwy Lywydd yn ysgrifennu at Mick Bates fel Cadeirydd newydd y Pwyllgor Deddfau fel y'i drafftiwyd. **Gweithredu: Alun Gruffudd i baratoi llythyr i'r Dirprwy Lywydd i'w anfon**

## 9.  Adolygu Rheolau Sefydlog

9.1 Bu’r Pwyllgor yn ystyried papur BC310-00 – adroddiad y Pwyllgor Busnes ar newidiadau i’r Atodiad i Reol Sefydlog 4.  Gan na awgrymwyd gwelliannau, bydd yr adroddiad yn cael ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno i’w drafod yn y Cyfarfod Llawn yn y dyfodol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

9.2 Bu’r Pwyllgor yn ystyried papur BC313-00 a oedd yn awgrymu gwelliant i Reol Sefydlog 6.3 i ganiatau i Aelodau gyflwyno cwestiynau i Edwina Hart yn rhinwedd ei swyddi gwahanol, boed fel Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid neu fel Gweinidog y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Chymunedau.  Cytunodd y Pwyllgor â’r cynigion a bydd adroddiad y Pwyllgor Busnes yn awr yn cael ei baratoi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr.**

## 10. Dyfarniadau’r Llywydd

10.1 Dim.

## 11. Unrhyw fater arall

11.1 Dim.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**